
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR DDINBYCH

Dydd Llun, 11 Ebrill 2016 am 2.00 pm
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Llanelwy

YN BRESENNOL

Mohammed Mehmet	Cyngor Sir Ddinbych (Cadeirydd)
Cynghorydd Hugh Jones Bethan Jones Simon Smith	Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
Siân Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Hefyd yn bresennol:

Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
Y Cynghorydd Dilwyn Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)

Swyddogion:

Siân Harland Euros Jones Nicola Kneale	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor (CBSC) Rheolwr Partneriaethau (CNC) Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CSDd)
Fran Lewis	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC)
Nigel McCann Shan Morris Hannah Rigby	Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (BIPBC) Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (GTAGC) Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (CBSC)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

2. CYTUNO AR GYLCH GORCHWYL

Cytunwyd y byddai'r Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei ohirio, tra'n aros am ganlyniad y cynnig i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd gyda Chonwy. Pe cytunwyd i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd, byddai Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei ystyried fel rhan o raglen y Cyfarfod y Cyd.

PENDERFYNWYD-

Gohirio'r Cylch Gorchwyl drafft.

3. **CYNNIG I GREU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR Y CYD GYDA CHONWY**

Er bod y Partneriaid yn ystyried mai Bwrdd wedi'i uno oedd y ffordd ymlaen, roedd pryderon na fyddai Bwrdd wedi uno yn gallu daduno yn y dyfodol. Roedd hyn oherwydd bod y ddeddfwriaeth, a oedd yn caniatáu yn benodol i Fyrddau uno, yn ddistaw o ran peidio â daduno. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynegi'r farn bod angen pŵer cyfreithiol penodol i ddaduno a oedd yn ofynnol er mwyn gwrthdroi'r penderfyniad i uno Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dywedodd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (Fran Lewis - CBSC) wrth y Partneriaid bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'r gallu i ddaduno yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

O ran cyfreithlondeb uno a daduno, cynigiodd y Prif Weithredwr (Iwan Davies - CBSC) ei farn os oedd pŵer i uno, yna gellid cymryd yn ganiataol bod pŵer i ddaduno. Os oedd y farn hon yn anghywir, yna gellid dadlau bod y penderfyniad i uno yn anghywir ac felly gellid ei ddadwneud.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau (Sioned Rees - LIC) fod darpariaeth i uno yn y ddeddfwriaeth, ond nad oedd darpariaeth i ddaduno. Roedd yna hefyd allu yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu cydweithio helaeth, os nad oedd y Byrddau eisiau uno'n ffurfiol.

Roedd pryder bod cydweithio, yn hytrach nag uno, yn golygu mwy o gyfarfodydd i'r Partneriaid hynny y mae eu cyrff yn cynnwys Gogledd Cymru gyfan neu Gymru gyfan.

Gan fod ansicrwydd am ddyfodol Ad-drefnu Llywodraeth Leol, awgrymwyd y dylai'r Byrddau uno, gan y byddai'r pwerau i ddaduno yn debyg o fod yn eu lle os oedd gofyniad i ddaduno yn y dyfodol (os yn wir fod angen pŵer o'r fath i ddaduno), o ganlyniad i newid i ffiniau Awdurdodau Lleol. Cydnabuwyd bod lefel isel o risg i'r penderfyniad hwn, ond y gallai'r risg hon gael ei rheoli.

Roedd papurau'r Bwrdd yn cynnwys y wybodaeth ddemograffig amlinellol a ddrafftwyd i ddechrau ar y gwaith ar gyfer yr Asesiad Lles. Roedd y rhesymeg dros uno'n seiliedig ar y gydnabyddiaeth fod y ddwy sir yn rhannu anghenion cymunedol tebyg y gellid ymdrin â nhw'n fwyaf effeithiol drwy gydweithio ar draws y ddwy sir. Gallai Bwrdd wedi'i uno fanteisio ar y gwaith da a'r perthnasau a ddatblygwyd trwy hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych, a byddai'n cynnig manteision gweithredol, tactegol a strategol o fewn ac ar draws rhanbarth canolog Gogledd Cymru a byddai felly'n cynorthwyo wrth gyfrannu at gyflawni'r amcanion lles, sef: -

- Cymru lewyrchus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

PENDERFYNWYD-

Uno Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy, gan y byddai Bwrdd wedi'i uno'n cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni nodau lles.